

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2020 No. 1044**

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

**RHAN 3**

**CYFNODAU HYSBYSU: DIWYGIO  
ADDASIADAU A WNAED GAN ATODLEN 29**

*TENANTIAETHAU RHAGARWEINIOL*

**Diwygio addasiadau a wnaed i adran 128 o Ddeddf Tai 1996**

**11.**—(1) Mae paragraff 8 o Atodlen 29 (hysbysiadau am achosion adennill meddiant mewn perthynas â thenantiaethau rhagarweiniol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (b), yn is-adran (4A)(a)(ii), a fewnosodir gan yr addasiad, yn lle “, three months beginning with the date on which the notice of proceedings is served” rhodder “

“—

(aa) four weeks beginning with the date on which the notice of proceedings is served where the landlord has specified in the notice of proceedings an ASB reason for applying for a possession order (whether or not the landlord has any other reason), and

(ab) in any other case, six months from the date on which the notice of proceedings is served”.

(3) Ym mharagraff (c), yn is-adran (8), a fewnosodir gan yr addasiad, yn y diffiniad o “ASB reason”—

(a) ar ôl ““ASB reason” means” mewnosoder “, in relation to a dwelling-house in England,” a

(b) ar y diwedd, mewnosoder “and, in relation to a dwelling-house in Wales, a reason which corresponds to any of those set out in section 84A(3) to (7) of the Housing Act 1985 or Grounds 2 and 2A of Schedule 2 to that Act”.